

Dychmygwch eich bod yn berson oedrannus sy'n byw ar eich pen eich hun. Wrth ddeffro un bore rydych chi'n troi'r radio ymlaen ac yn clywed bod llifogydd yn yr ardal.

Wrth i chi fynd lawr y grisiau rydych chi'n gweld fod dŵr wedi llifo i mewn i'r tŷ hyd ddyfnder eich ffêr.

Trafodwch:

- Am beth fyddech chi'n poeni amdano fwyaf?
- Sut fyddech chi'n teimlo?



Dychmygwch eich bod chi a'r teulu newydd gyrraedd adref o'ch gwyliau.

Rydych yn gweld nad oes modd i chi gyrraedd y tŷ gan fod y tŷ a'r tir o'i gwmpas dan ddŵr.

Trafodwch:

- Am beth fyddech chi'n poeni amdano fwyaf?
- Sut fyddech chi'n teimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud?
- Gyda phwy y byddech chi'n cysylltu?



Dychmygwch eich bod yn Bennaeth a'r ysgol leol.

Rydych yn cyrraedd yr ysgol yn gynnar un bore ond i weld bod tir yr ysgol yn ogystal â sawl ystafell ddosbarth a ffreutur yr ysgol dan ddŵr.

Trafodwch:

- Am beth fyddech chi'n poeni amdano fwyaf?
- Sut fyddech chi'n teimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud?
- Gyda phwy y byddech chi'n cysylltu?



Dychmygwch eich bod yn anabl a'ch bod yn defnyddio cadair olwyn i symud o gwmpas.

Rydych yn byw gyda'ch teulu, ac mae eich ystafell wely ar y llawr gwaelod ar gyfer hwyluso mynediad i chi.

Rydych yn deffro yn ystod y nos ac yn gweld fod dŵr wedi llifo i mewn i'r ystafell.

Trafodwch:

- Am beth fyddech chi'n poeni amdano fwyaf?
- Sut fyddech chi'n teimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud?
- Gyda phwy y byddech chi'n cysylltu?



Dychmygwch eich bod yn berchen ar y siop leol.

Wrth agor drws y siop rydych yn gweld fod dŵr wedi llifo i mewn i'r siop.

Trafodwch:

- Am beth fydddech chi'n poeni amdano fwyaf?
- Sut fydddech chi'n teimlo?
- Beth fydddech chi'n ei wneud?
- Gyda phwy y bydddech chi'n cysylltu?



Dychmygwch eich bod yn weithiwr gofal lleol sy'n gofalu am drigolion oedranus mewn rhan dawel o'r dref.

Rydych yn cyrraedd un bore i ddarganfod fod yr ardal wedi ei gorlifo gan ddŵr.

Trafodwch:

- Am beth fydddech chi'n poeni amdano fwyaf?
- Sut fydddech chi'n teimlo?
- Beth fydddech chi'n ei wneud?
- Gyda phwy y bydddech chi'n cysylltu?

